

## Penderfyniadau rhanbarth Caerfyrddin 12fed o Fedi

1. Etholwyd Sioned Elin yn Gadeirydd, Amy Jones yn Is-gadeirydd, Rhiannon yn Ysgrifennydd gyda dyletswyddau dros y cyfrif banc (gyda Eiry Miles yn cymeryd cofnodion mewn rhai cyfarfodydd, yn ôl yr angen)

Penderfynwyd y byddai'r rhanbarth yn cyflwyno dau gynnig i Gyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith: un yn ymwneud â strategaethau iaith i awdurdodau lleol ac un yn ymwneud â chreu continwrm iaith ar gyfer cymunedau. Bydd y cynigion yn rhan o becyn fydd yn cael ei ddanfon at aelodau dros yr wythnos nesaf.

## 2. Cyngor Sir Caerfyrddin:

\* Cyfarfodydd -

Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg – 29ain o Fedi, i gael diweddariad

Wendy Walters, Dirprwy Brif Weithredwr gyda gofal dros y Gymraeg – 19eg o Hydref, i osod disgwyliadau o ran iaith weinyddol y cyngor yn arwain at gyfarfod Tynged yr Iaith yn Sir Gâr fis Ionawr

\* Tynnwyd sylw at enghreifftiau diweddar sy'n dangos nad yw'r Gymraeg yn cael ei ystyried yn rhan ganolog a naturiol o waith y cyngor. Mae'n ymddangos bod y cyngor yn hapus i bethau ym myd addysg ac i bethau tu fas i'r cyngor ddigwydd yn Gymraeg ond ddim cystal am wneud pethau eu hunain.

\* Tynged yr Iaith yn Sir Gâr:

Mae angen gosod disgwyliadau ar swyddogion y cyngor i adrodd a bod yn atebol yn y cyfarfod.

- Gwahoddiad cyhoeddus i Mark James yn y Journal a'r Herald os ydyn nhw'n fodlon.

- Byddwn ni'n mynd a gwahoddiad mawr at gyfarfod y Bwrdd Gweithredol ar yr 28ain o Fedi o 9.30am, a chyhoeddi faint o bapurau a chyflwyniadau'r cyfarfod sy'n Gymraeg. Mae angen pobl i ddod at hwn. Byddwn ni'n gwahodd John Gwilym Jones, Robin McBryde a Mererid Hopwood i ddod i gyflwyno'r gwahoddiad.

### **Bethan i roi gwybod i'r wasg a'r papurau bro**

- Grŵp ffesbwc, creu a diweddar'u'n gyson

- Taflenni i fynd at nosweithiau comedi'r Parot ac i'w rhannu mewn digwyddiadau i ddod **Bethan i holi Hedd**

- Baneri hyrwyddo i fynd lan yn Llanelli – **Ben Evans i edrych mewn i hyn**

## 3. Digwyddiadau

\* Gig ar y gweill yn y Parot fis Rhagfyr

\* Posibiliadau gig yn Rhydaman fis Hydref i'w trafod

## 4. Colofn yn y Journal:

Rydyn ni wedi cadarnhau y byddwn ni'n gyfrifol am golofn yn y Journal bob wythnos o'r wythnos nesaf. Byddwn ni'n trefnu i rywun ysgrifennu. Os oes rhywun am gyfrannu rywbryd mae croeso i chi wneud – cysylltwch gyda fi.